### Dyfyniadau i ysbrydoli

Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist! O'i fawr drugaredd, fe barodd ef ein

## Ynglŷn â'r Awdur

Dywed Llythyr Cyntaf Pedr 1.1 mai awdur y llythyr oedd Pedr apostol Iesu Grist, ac ystyriwyd fod hyn yn golygu "y Pedr" - Pedr yr Efengylau.

Mae llawer o ysgolheigion, fodd bynnag, sy'n gwrthod credu mai'r awdur oedd Pedr. Mae rhai'n seilio eu dadl ar y ffaith fod yr awdur yn hyddysg mewn athroniaeth a rhethreg Groeg (ac ni allai Pedr fod yn hyddysg ynddynt). Mae eraill yn dadlau fod yr erlid y cyfeirir ato yn y llythyr fwy na thebyg o ddyddiad diweddarach (efallai mor hwyr ag 80au -90au OC). Mae eraill wedyn yn dadlau fod Llythyr Cyntaf Pedr yn rhannu llawer o themâu'r Effesiaid ac felly efallai ei fod wedi ei ysgrifennu ar ôl y llythyr hwnnw (ac felly wedi i Pedr gael ei ferthyru yn Rhufain).

Mae ysgolheigion eraill heb eu hargyhoeddi gan y dadleuon hyn ac yn parhau i'w briodoli i Pedr.

*Beth wyddom ni amdano?*

Pedr yw'r mwyaf adnabyddus o 12 disgybl gwreiddiol Iesu. Er nad yw'r efengylau eraill yn dweud dim am ei dras na man ei eni, mae Efengyl Ioan yn ei adnabod fel mab Ioan a'i fod yn hanu o Fethsaida (Ioan 1. 40-44). Erbyn iddo gyfarfod Iesu yn Efengyl Marc mae'n ymddangos ei fod yn byw yng Nghapernaum - o leiaf roedd ei fam yng nghyfraith yn byw yno (Marc 1.30). Roedd ganddo frawd o'r enw Andreas (Matthew 4.18 ac Ioan 1.40, 44). Mae'r efengylau i gyd yn nodi fod Pedr yn bysgotwr (felly dyma sail y dybiaeth na fyddai wedi ei hyfforddi mewn athroniaeth a rhethreg Groeg).

Portreadir Pedr yn y pedair efengyl fel un oedd yn agos iawn at Iesu - er ei fod yn aml yn gwneud camgymeriadau, tuedd yn y diwedd a'i harweiniodd at wadu Iesu Grist dair gwaith cyn ei brawf. Mae traddodiad Cristnogol yn mynnu mai Pedr oedd Esgob cyntaf Rhufain a'i fod wedi ei groeshoelio yno yn ystod teyrnasiad yr Ymherodr Nero (yng nghanol 60au OC). Mae rhai'n credu mai tystiolaeth Pedr fel llygad dyst o fywyd a marwolaeth Iesu yw Efengyl Marc. Os nad ysgrifennwyd y llythyr gan Pedr yna wyddom ni ddim byd o gwbl am yr awdur.

## Cadwch lygad am…

Gellir canfod thema dioddef ac erlid drwy'r llyfr cyfan, chwiliwch amdano wrth i chi ddarllen a gofyn pa neges mae Pedr yn ceisio ei chyflwyno i bobl sy'n brwydro mewn amgylchedd gelyniaethus.

Ochr yn ochr â dioddef mae thema 'gobaith'. Beth ydych chi'n gredu mae'r gair 'gobaith' yn ei olygu i Pedr? Ydyn ni'n ei ddefnyddio yn yr un ffordd heddiw?

Thema gref arall yn y llyfr yw perthynas – gyda Christ a gyda'n gilydd – sylwch arno a gofynnwch i'ch hunan beth allwn ni ddysgu heddiw oddi wrth y neges

## Beth allai hyn ei olygu i mi?

Ar fwy nag un achlysur mae Llythyr Cyntaf Pedr yn sôn am ymddwyn yn 'anrhydeddus'. Mewn geiriau eraill mae'r dull o fyw yn rhan hanfodol o fodolaeth Cristnogol.  Sut beth ydych chi'n credu y dylai bywyd Cristnogol anrhydeddus fod?